



Rhaglen Gwên Am Byth Adroddiad Blynyddol 2021-2022	
Awdur: Tîm Iechyd Deintyddol y Cyhoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol GIG Cymru	
Dyddiad: Mehefin 2022	Fersiwn: 1
Dosbarthu: Prif Swyddog Deintyddol, Llywodraeth Cymru Cyfarwyddwyr Clinigol, Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol	
Diben y Ddogfen a Chrynodeb Ohoni: Mae'r ddogfen hon yn coladu adroddiadau am weithgareddau sy'n ymwneud â'r rhaglen Gwên Am Byth, a gynhaliwyd gan y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol o fewn y 7 Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. Y cyfnod adrodd yw 01.04.21-31.03.22.	
Diolchiadau: Diolch i staff Gwên Am Byth am gyflwyno'r adroddiadau lleol, a gweithio'n ddiflino fel rhan o'u prif swydd a swyddi y cawsant eu hadleoli iddynt yn ystod 2021-22.	

Rhaglen genedlaethol gwella iechyd y geg a ddarperir gan y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yng Nghymru yw Gwên Am Byth a'i phrif nod yw gwella iechyd y geg a hylendid ymysg pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae'n sail i Gylchlythyr Iechyd Cymru 2015/001 <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/gwella-iechyd-y-geg-ar-gyfer-pobl-hn-syn-byw-mewn-cartrefi-gofal-yng-nghymru.pdf>

Roedd 2020 a 2021 yn flynyddoedd anodd iawn i lawer o raglenni iechyd a gofal cymdeithasol yn sgil y pandemig Covid-19. Cafodd effaith sylweddol ar Gwên Am Byth. Byddai'n amhriodol ceisio cymharu'r gweithgarwch â blynyddoedd cyn 2020. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cafodd nifer sylweddol o staff eu hadleoli i swyddi eraill i gefnogi'r GIG. Gwelwyd absenoldebau staff sylweddol oherwydd salwch ac oedi yn y broses recriwtio.

Pan fu'n bosibl cyflawni gwaith Gwên Am Byth, gwelwyd effaith y newidiadau o fewn amgylchedd y cartref gofal ar ei allu i ddod yn ôl i drefn ar ôl y pandemig. Ymysg y newidiadau hyn roedd trosiant uchel o staff cartrefi gofal a rheolwyr cartrefi gofal, yn ogystal â chartrefi gofal yn cau, sydd wedi golygu bod yn rhaid dechrau o'r dechrau mewn llawer o achosion, ar ôl colli cof sefydliadol a pherthnasoedd gwaith sefydledig. Arweiniodd

achosion o Covid-19 a newidiadau yn sgil y cyfyngiadau at ganslo ac aildrefnu'r gwaith ar raddfa eang. Er y bu'n bosibl ymgysylltu'n rhithwir mewn rhai sefyllfaoedd, cafwyd heriau ac i lawer, o ran dysgu ac addysgu, ni all gymryd lle addysg gofal iechyd y geg wyneb-yn-wyneb. Ar y llaw arall, cafwyd ymgysylltiad ac adborth cadarnhaol iawn gan staff cartrefi gofal i aildddechrau'r rhaglen Gwên Am Byth, gan yr ystyir yr addysgu a'r ymyriadau yn bwysig iawn. Darperir data ar weithgareddau'r cyfnod adrodd hwn yn Nhablau 2 a 3.

Ym mis Mehefin 2021, diweddarodd Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol, Llywodraeth Cymru, y rhaglen gyda fframwaith 'Essentials' Gwên Am Byth. Rhoddodd hyn ddewis i'r staff allu goresgyn rhai o'r heriau a grybwyllir uchod, gan anelu at roi cymorth teg i bob cartref gofal.

Nododd mai diben y diweddariad yw gwneud y gorau o'r wybodaeth ac ymwbyddiaeth am y rhaglen; a'r adnoddau a'r budd mae'n eu cynnig i breswylwyr, mewn cymaint o gartrefi gofal ar hyd a lled Cymru â phosibl. Caiff y broses o ymestyn y rhaglen a'r cynnig ehangach hwn ei chefnogi drwy ddatblygu dull syml i gyflawni prif nodau'r rhaglen ym mhob cartref gofal.

Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai Gwên Am Byth yn derbyn dwbl y cyllid ar draws y saith Bwrdd Iechyd Lleol. Cynyddwyd y cyllid i £0.5 miliwn y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n llawn i bob cartref gofal yng Nghymru yn ystod 2020/21. Arweiniodd y cynnydd yn y cyllid hwn at neilltuo mwy o weithlu i gefnogi'r rhaglen.

Tabl 1: Gweithlu Gwên Am Byth o fewn Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol y GIG (Mawrth 2022)

BIP Aneurin Bevan	1 (0.6 WTE Band 4) Caiff Addysgwr Iechyd y Geg ei gyflogi gan gyllideb Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol BIP Aneurin Bevan i ddarparu hyfforddiant mewn gofal y geg 2 (1.0 WTE Band 5) Mae Ymarferwyr Gwella Iechyd y Geg, drwy'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, yn cefnogi'r rhaglen Gwên am Byth a gofal cartref yn y gymuned. 1 (1.0 WTE Band 6) Mae arweinwyr y rhaglen yn parhau i gael eu hariannu gan gyllid WHC/2015/001 i gefnogi'r broses o ddarparu'r rhaglen.
BIP Betsi Cadwaladr	Rheolwr Hybu Iechyd Deintyddol 0.8WTE Addysgwyr Iechyd y Geg 5.6 WTE
BIP Caerdydd a'r Fro	2 (1.16 WTE) Ymarferydd Gwella Iechyd Deintyddol 1 (0.2WTE) Swyddog Cymorth Gweinyddol (swydd wag)
BIP Cwm Taf Morgannwg	1 (1.0 WTE) Ymarferydd Gwella Iechyd y Geg 1 (0.56 WTE) Ymarferydd Gwella Iechyd y Geg
BIP Hywel Dda	1 (0.5 WTE) Arweinydd Gwella Gwasanaethau 2 (1.0 WTE) Uwch Reolwyr Hybu Iechyd y Geg 4 (1.1 WTE) Swyddogion Hybu Iechyd y Geg 1 (0.57 WTE) Band 5 Swyddog Hybu Iechyd y Geg ers 21/03/2022
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	1 Therapydd Deintyddol (2 ddiwrnod y mis yn ystod y cyfnod cofnodi hwn, ond yn cynyddu i 2 ddiwrnod yr wythnos o fis Mai 2022). 1 (0.4 WTE Band 5) Addysgwr Iechyd y Geg Nyrs Ddeintyddol

BIP Bae Abertawe	1 (1.0 WTE) Arweinydd y Rhaglen 1 (0.6 WTE) Swyddog Hybu Iechyd y Geg
-------------------------	--

Yn ogystal â'r berthynas hanfodol gyda staff cartrefi gofal, mae timau Gwên Am Byth yn gweithio'n agos gyda thimau eraill ledled Cymru. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Darparodd Gwên Am Byth BIP Aneurin Bevan sesiynau hyfforddi ar y cyd gyda'r tîm therapi lleferydd ac iaith
- Gweithiodd Gwên Am Byth BIP Betsi Cadwaladr yn agos gydag Uwch Ymarferwyr Nyrsio a Nyrsys Gofal Parhaus
- Gweithiodd Gwên Am Byth BIP Cwm Taf Morgannwg gyda Nyrsys Gofal Lliniarol
- Darparodd Gwên Am Byth BIP Hywel Dda hyfforddiant sefydlu i staff gofal mewn ysbytai
- Gweithiodd Gwên Am Byth Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn agos gyda Therapyddion Lleferydd ac iaith, Nyrsys iechyd meddwl pobl hŷn a Nyrsys Dementia.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn gyfle i arddangos prosiectau newydd a ffyrdd newydd o weithio sy'n cael eu sefydlu gan dîmau Gwên Am Byth lleol.

Yn BIP Aneurin Bevan, cafodd rhaglen Essential Gwên Am Byth ei chyflwyno i ddarparwyr gofal cartref yng Ngwent sy'n golygu gweithio gydag asiantaethau ar hyd a lled Gwent, gofal cymdeithasol, yr awdurdod lleol a thimau gofal iechyd sy'n darparu gofal i bobl hŷn eiddil ac agored i niwed sy'n byw gartref a chanddynt anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth cyn iddynt gael eu symud i gartref gofal. Targedwyd un fwrdeistref yn wreiddiol a hynny drwy ymgysylltu â'r Nyrsys Ardal a mynychodd pob tîm hyfforddiant mewn gofal y geg. Darparwyd hyfforddiant misol hefyd i ofalwyr newydd yn ystod yr wythnos sefydlu. Gofynnwyd am hyfforddiant am awr wyneb-yn-wyneb ac ar ôl y sesiynau hyn gofynnwyd am hyfforddiant mewn gofal y geg ar gyfer diwedd oes. Mae pob un o'r pum tîm Gofal Cymhleth yn y fwrdeistref hefyd wedi cynnwys yr hyfforddiant yn eu rhaglen sefydlu i ofalwyr newydd. Mae'r rhaglen newydd ddechrau cael ei chyflwyno i ddarparwyr gofal yn y sector preifat.

Yn BIP Betsi Cadwaladr, mae llawer o gartrefi yn symud y cyfrifoldeb am waith papur o ddwylo ei staff arferol a hyrwyddwyr deintyddol i ddwylo gweithwyr allweddol. Manteision hyn yw na fydd cartrefi gofal yn cael eu gadael heb hyrwyddwyr ar ôl i'r staff hyfforddedig hyn adael. Mae hyn yn golygu bod pob aelod o staff yn cael ei hyfforddi fel hyrwyddwyr deintyddol ac felly'n gyfrifol am nifer bach o'r preswylwyr o gymharu ag 1-2 aelod o staff yn gyfrifol am y preswylwyr i gyd. Cynhaliwyd hyfforddiant gofal cartref rhanbarthol unwaith bob chwarter. Mae'r sesiwn hyfforddi hon yn cwmpasu'r hyfforddiant sylfaenol ac yn cael ei chynnal ar un o safleoedd lleol y cyngor. Mae'r sesiynau hyn ar gael i staff gofal cartref, yn ogystal ag unrhyw aelod o staff cartrefi gofal a fethodd fynychu'r hyfforddiant yn ei gartref gofal. Bu'r hyfforddiant hwn yn llwyddiannus iawn gyda nifer helaeth yn mynychu pob digwyddiad.

Yn BIP Hywel Dda, rhaglen Gwên Am Byth sy'n arwain y ffordd, mewn cydweithrediad â'r tîm dysgu a datblygu ac mae arweinwyr gofal y geg Gwelliant Cymru wedi bod yn gweithio

ar ffyrdd o ddatblygu adnodd hyfforddiant gofal y geg ESR Cymru Gyfan. Bydd hyn yn caniatáu i bob aelod o staff gofal y GIG gael mynediad iddo a'i gwblhau fel rhan o'r gweithgaredd e-ddysgu gorfodol.

Yn BIP Bae Abertawe, defnyddir fframwaith Essentials Gwên Am Byth ar gyfer darparwyr gofal cartref. Gofynnwyd i bum darparwr dreialu hyn ac maent yn falch o wneud hynny gan nad ydynt wedi cael fawr o hyfforddiant mewn gofal y geg hyd yma, os o gwbl.

Tabl 2: Cyfranogiad cartrefi	1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022							
Bwrdd Iechyd	BIP Betsi Cadwaladr	BIP Cwm Taf Morgannwg	BIP Hywel Dda	BI Addysgu Powys	BIP Bae Abertawe	BIP Aneurin Bevan	BIP Caerdydd a'r Fro	Cyfanswm Cymru Gyfan
Cyfanswm nifer y cartrefi yn y Bwrdd Iechyd	185	67	93	30	83	89	63	610~
Nifer y cartrefi a dargedwyd ar gyfer y rhaglen	137	67	93	25	83	89	63	557
Nifer y cartrefi gofal sy'n cymryd rhan lawn yn y rhaglen	77	32	26	1	78	71	14	299
Y nifer sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn rhannol	50	32	31	6	5	10	36	170
Cartref Gofal wedi gwneud cais am hyfforddiant yn unig	1	0	28	0	0	0	0	29
Nifer y cartrefi nad ydynt yn cymryd rhan	57	3	8	23	0	8*	13	112
Nifer y cartrefi sydd â pholisi gofal y geg cyfredol	73	54	35	14	78	89	38	381
Nifer y cartrefi sy'n gallu uniaethu â'i wasanaethau deintyddol lleol	92	54	40	30	78	89	38	421
Nifer y cartrefi a gafodd arolygiad allanol gan amlygu gofal y geg da / rhagorol	0	0	4	0	2	1	0	7
Nifer y cartrefi a dderbyniodd arolygiad allanol gan amlygu gofal y geg annigonol	0	0	0	0	2	0	0	2

~ Cofnodir y niferoedd hyn gan dimau Gwên Am Byth. Cyfanswm nifer y cartrefi gofal i oedolion a chartrefi nyrsio sydd wedi cofrestru ag Arolygiad Gofal Cymru yw 1266 (Mehefin 2022).

* Mae'r 8 cartref gofal hyn wedi'u cyflwyno ar gyfer treialon ymchwil SENIOR.

Tabl 3: Hyfforddiant staff		1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022						
Bwrdd Iechyd	BIP Betsi Cadwaladr	BIP Cwm Taf Morgannwg	BIP Hywel Dda	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	BIP Bae Abertawe	BIP Aneurin Bevan	BIP Caerdydd a'r Fro	Cyfanswm Cymru Gyfan
O'r cartrefi â'r dargedwyd ac sy'n cymryd rhan lawn:								
Cyfanswm nifer y staff iechyd a gofal sy'n gymwys i dderbyn hyfforddiant	-	1090	792	52	2203	-	2484	6621
Cyfanswm nifer yr eiriolwyr iechyd y geg sydd wedi'u hyfforddi (gan y CDS)	711	293	63	2	333	56	0	1458
Cyfanswm nifer y staff iechyd a gofal sydd wedi'u hyfforddi gan y CDS (heb gynnwys eiriolwyr y geg)	2293	1255	360	10	489	1261	268	5936
Cyfanswm nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi'n uniongyrchol gan eiriolwyr iechyd y geg	9	407	101	0	644	119	0	1280
Nifer y sesiynau hyfforddi a roddwyd i staff cartrefi gofal gan y CDS (yn flynyddol)	710	44	89	2	110	78	26	1059